# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 3 Chwefror 2025

Amser: 14.00 - 14.46

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14832

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Carolyn Thomas AS (Cadeirydd)<br>Rhys ab Owen AS<br>Luke Fletcher AS<br>Vaughan Gething AS<br>Joel James AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br>Lara Date (Ail Glerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc)<br>Gruffydd Owen (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

Datganodd Vaughan Gething AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Pan fyddai'r Pwyllgor yn dechrau trafod Deiseb P-06-1450, o dan eitem 3.6, byddai'n esgusodi ei hun o'r trafodaethau bryd hynny, o ystyried ei bod yn ymdrin yn sylweddol â rhywfaint o'i hanes yn y Llywodraeth.

Datganodd Carolyn Thomas AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Cyn iddi fod yn aelod o'r Pwyllgor, llofnododd ddwy ddeiseb ar yr agenda – eitem 3.1, deiseb P-06-1272, 'Gwahardd defnyddio 'cymalau dim anifeiliaid anwes' mewncytundebau tenantiaeth yng Nghymru', y datganodd hefyd a gyflwynwyd gan aelod o'i staff, ac eitem 3.4, deiseb P-06-1394 mewn perthynas â pharc arfordirol Penrhos.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-06-1492 Cadw mynediad 24 awr i'r Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb ac roedd gwahaniaeth barn ynghylch a ddylid ei chadw ar agor, o ystyried bod y mater yn debygol o gael ei godi yn y Cyfarfod Llawn. Fodd bynnag, barn y mwyafrif oedd tynnu sylw Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y ddeiseb (hefyd yn nodi'r ddeiseb ar wahân nad yw i'r Senedd, gan y grŵp ymgyrchu SOSPPAN sydd â thros 10,000 o lofnodion), a chadw'r ddeiseb ar agor am chwe mis arall i weld canlyniad gwaith monitro'r Ysgrifennydd Cabinet a'r Bwrdd Iechyd o'r sefyllfa.

### 2.2 P-06-1495 Sefydlu strwythur o fewn y Senedd i wahardd gwleidyddion sy'n euog o ddichell fwriadol

Yn dilyn trafodaeth, y consensws oedd, gan fod y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn bwrw ymlaen â'r mater, ei bod yn briodol diolch i'r deisebydd a chau'r ddeiseb.

### 2.3 P-06-1496 Gwneud prawf sgrinio calon yn ofyniad hanfodol ar gyfer aelodaeth o glybiau chwaraeon a champfeydd yng Nghymru

Roedd yr Aelodau'n gwerthfawrogi bod hwn yn fater pwysig a sensitif. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o dystiolaeth yr arbenigwyr sy'n cynghori gwledydd y DU nad ydynt yn argymell hyn am y tro, ac nid yw'n rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud. Felly, roedd y Pwyllgor yn diolch i'r deisebydd ond yn cytuno i gau'r ddeiseb.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-06-1272 Gwahardd defnyddio 'cymalau dim anifeiliaid anwes' mewn cytundebau tenantiaeth yng Nghymru.

Nododd yr Aelodau y gwaith a wnaed ar y mater hwn gan Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd, a bod Llywodraeth Cymru wedi nodi yn ei Phapur Gwyn y ffordd y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu perchnogion anifeiliaid anwes. Gan hynny, penderfynodd yr Aelodau ddiolch i'r deisebydd a chau'r ddeiseb.

### 3.2 P-06-1389 Cyflwyno terfyn cyflymder o 30mya ar y gefnffordd trwy bentrefi Eglwys-fach a Ffwrnais

Cytunodd yr Aelodau i rannu sylwadau a chwestiynau diweddaraf y deisebydd gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru a chadw'r ddeiseb yn agored hyd nes y byddai diweddariad pellach ar yr opsiwn y cytunir arno ar gyfer y ffordd yn dod i law. Fodd bynnag, cytunwyd i gau'r ddeiseb y tro nesaf y byddai'n cael ei thrafod, gyda'r bwriad i'r Aelodau lleol wedyn fwrw ymlaen â hi. Byddai'r Pwyllgor yn sicrhau bod yr Aelodau lleol yn gwybod am y mater, rhag ofn nad oedd yn gwybod amdano.

### 3.3 P-06-1390 Rhoi diwedd ar bob bwyd â chymhorthdal yn y Senedd ac i staff Llywodraeth Cymru yn gyffredinol

Roedd y deisebydd wedi cael esboniad gan yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Llywydd am faint a rhesymeg dros y cymorthdaliadau arlwyo yn Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru. Gan hynny, diolchodd yr Aelodau i'r deisebydd a chytunwyd i gau'r ddeiseb.

### 3.4 P-06-1394 Dylid ymyrryd yn natblygiad Parc Arfordirol Penrhos yn gyrchfan wyliau ar Ynys Môn

Wrth drafod y ddeiseb, roedd gwahaniaeth barn rhwng yr Aelodau. Fodd bynnag, barn mwyafrif y Pwyllgor oedd peidio â chymryd unrhyw gamau pellach, ond diolch i'r deisebydd a chau'r ddeiseb heb ofyn am ddadl yn y Cyfarfod Llawn. Nododd y Cadeirydd y byddai'n parhau i fynd ar drywydd y mater yn rhinwedd ei rôl fel Aelod Gogledd Cymru.

### 3.5 P-05-1448 Atal llygredd ym Mae'r Tŵr Gwylio ac Aberogwr

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb, a nododd hefyd fod deiseb P-06-1478 yn Eitem 3.7 ar yr agenda hefyd yn cyfeirio at faterion yn ymwneud ag ansawdd dŵr yn Aberogwr, felly gohiriwyd penderfyniad terfynol ar y camau gweithredu hyd nes y byddai'r eitem honno'n cael ei thrafod. Cytunodd y Pwyllgor wedyn i ddiolch i'r deisebydd a chau'r ddeiseb, ond wrth wneud hynny i dynnu sylw Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith at y ddeiseb a sylwadau'r deisebydd i'w trafod yn ei waith craffu ar CNC ym mis Mawrth 2025.

### 3.6 P-06-1450 Llywodraeth Cymru i weithredu i amddiffyn pobl rhag heintiau a drosglwyddir drwy'r awyr mewn lleoliadau gofal iechyd

Roedd Vaughan Gething wedi datgan buddiant ar ddechrau'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon, o ystyried bod y ddeiseb yn ymdrin yn sylweddol â peth o'i hanes yn y Llywodraeth, ac esgusododd ei hun o drafod y ddeiseb.

Trafododd gweddill y Pwyllgor y ddeiseb. Cytunodd yr Aelodau, oherwydd natur y ddeiseb, nad y Pwyllgor Deisebau oedd y lle gorau i fwrw ymlaen â'r hyn y mae'r ddeiseb yn gofyn amdano. Felly cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb ac i anfon ymateb y deisebydd ymlaen at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a chyd-gadeiryddion Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru, iddynt fod yn ymwybodol ohono.

Nododd yr Aelodau hefyd ei bod yn bosibl dilyn gwaith Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru ar wefan y Senedd.

### 3.7 P-06-1478 Dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o waith Cyfoeth Naturiol Cymru a methiannau'r sefydliad o ran cyflawni ei rwymedigaethau statudol i ddiogelu Cymru

Cytunodd yr Aelodau mai'r peth mwyaf priodol oedd i Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd fynd ar drywydd y materion hyn yn ei waith craffu ar CNC ym mis Mawrth 2025. Byddai cwestiynau a sylwadau'r deisebwyr - ynghyd â rhai deiseb 1448 Atal llygredd ym Mae'r Tŵr Gwylio ac Aberogwr - yn cael eu hanfon at Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw. Diolchodd yr Aelodau i'r deisebydd a chytunwyd i gau'r ddeiseb.

### 3.8 P-06-1485 Dylid cyflwyno rhwydwaith o Lyfrgelloedd Teganau ledled Cymru

Roedd y deisebydd wedi cael ymateb calonogol i'w gynnig ac roedd y Pwyllgor yn falch o fod wedi helpu. Fodd bynnag, nid oedd llawer mwy y gallai'r Pwyllgor ei wneud ar y mater bellach, felly diolchodd yr Aelodau i'r deisebydd a chytunwyd i gau'r ddeiseb.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 P-06-1482 Gwahardd ffonau clyfar ym mhob ysgol yng Nghymru (gydag esemptiadau ar gyfer amgylchiadau eithriadol)

Nododd yr Aelodau y papurau.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Trafod yr adroddiad drafft - P-06-1482 Gwahardd ffonau clyfar ym mhob ysgol yng Nghymru (gydag esemptiadau ar gyfer amgylchiadau eithriadol)

Trafododd y Pwyllgor ddrafft cyntaf o’r adroddiad gan ei dderbyn mewn egwyddor, yn amodol ar fân newidiadau i destun yr adroddiad i gytuno arnynt drwy e-bost.